



PONTIO (YN YR YSGOL)

Pum awgrym defnyddiol gan rieni i helpu eich plentyn niwroamrywiol i symud rhwng ardaloedd gwahanol yn yr ysgol.




Gadael yn Gynnar

Dylech ystyried gofyn i athro eich plentyn a fyddai modd iddynt adael y dosbarth 5 munud yn gynt, fel nad oes rhaid iddo/iddi fynd trwy'r coridor o un dosbarth i'r llall ar yr un pryd â llawer o blant eraill.

Bod yn Gyfarwydd â'u Hamserlen

Mynnwch gopi o'u hamserlen yn yr ysgol ar gyfer y cartref, fel bod modd i chi drafod meysydd anhawster posibl gyda nhw y tu allan i'r ysgol.



Cael Cyfaiil Ysgol

Dylid holi a fyddai modd i'w hathro ofyn iddynt a ydynt yn dymuno mynd â ffrind gyda nhw wrth symud o un dosbarth i'r llall neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau (neuadd ginio neu iard chwarae). Nid oes rhaid iddo fod yr un person bob tro, ac nid oes rhaid gwneud hyn os nad ydynt eisiau, ond gallai helpu i leddfu eu gorbryder.



Amser Cinio

Gall amser cinio fod yn broblem fawr i rai plant, gan fod neuaddau cinio yn llefydd prysur ac yn aml yn gallu bod yn llethol i'r synhwyrâu (e.e. synau ac arogleuon)- gofynnwch i'r athro a fyddai modd i'ch plentyn nôl eu bwyd ar amser tawelach a gofynnwch am gopi o'r fwydlen i'w chadw gartref, fel bod modd iddynt ystyried beth maent ei eisiau i ginio ymlaen llaw.



Cyfathrebu â'r Athro

Rhowch wybod i athro eich plentyn ynghylch adegau lle bydd o bosibl angen rhagor o gymorth arnynt neu os ydyn nhw'n teimlo nad oes ganddynt gymaint o reolaeth â'r arfer. E.e. os nad ydyn nhw wedi dweud bore da gartref, os ydyn nhw'n sâl ag annwyd, heb gysgu'n dda neu os buoch chi'n dathlu pen-blwydd un o aelodau'r teulu neu gymryd rhan mewn gweithgaredd dros y penwythnos a bod hynny o bosibl wedi cael effaith ar eich plentyn am rai diwrnodau wedyn.

